*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1048

# Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 5) 2020

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 29 Medi 2020**

**2.**—(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym, i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau, ar 29 Medi 2020—

(a) adran 6 (y drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn mangre ddi-fwg);

(b) adran 10 (tir ysgolion);

(c) adran 11 (tir ysbytai);

(d) adran 17 (arwyddion: mangreoedd di-fwg);

(e) adran 18 (awdurdodau gorfodi);

(f) adran 27 (hysbysiadau cosb benodedig) i'r graddau y mae'n ymwneud ag Atodlen 1;

(g) adran 28 (dehongli'r Bennod hon); ac

(h) Atodlen 1 (cosbau penodedig).

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 29 Medi 2020—

(a) adran 15 (cerbydau di-fwg); a

(b) adran 16 (mangreoedd di-fwg: esemptiadau).